Theatr Clwyd

Hawdd ei deall

# Rydyn ni'n chwilio am ddylunydd set a gwisgoedd dan hyfforddiant



Mehefin 2025

craidd

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o "Craidd & Theatr Clwyd - Pecyn gwybodaeth Dylunydd Set a Gwisgoedd dan hyfforddiant Under Milk Wood"



Mae'r geiriau mewn ysgrifen glas trwm yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau glas yn ei feddwl ar mewn bocs.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Theatr Clwyd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.theatrclwyd.com

E-bost: stiwdio@theatrclwyd.com

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Am Craidd

Craidd ydy'r enw sydd yn cael ei roi i 5 sefydliad sy'n gweithio gyda'i gilydd.  Y rhain ydy:

- Theatr Clwyd
- Theatr y Sherman
- Celfyddydau Pontio
- Theatr y Torch  a
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.




Ein nod ydy gwneud yn siŵr bod mwy o grwpiau o bobl yn gallu ymwneud â'r theatr.



Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud theatr yn gynhwysol i bawb.



Ein nod ydy gwneud yn siŵr bod pobl fyddar, anabl a niwrowahanol yn:

- cael eu cynnwys
- ac yn cael eu gweld mwy yn y theatr.




Mae pobl niwrowahanol yn bobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i lawer o bobl eraill.



Sara Beer ydy Cyfarwyddwr Craidd.  Mae 5 person arall yn cael eu cyflogi ar y prosiect yma.  Maen nhw’n cael eu galw yn  Asiant dros Newid.



Fe fydd pob sefydliad sy’n rhan o Craidd yn gwneud cynhyrchiad teithiol gyda phobl fyddar, anabl a niwrowahanol.



Yn 2026 rydyn ni’n gwneud sioe o’r enw Under Milk Wood.




Dyma ein sioe Craidd gyntaf.  Fe fydd yn mynd i Theatr y Sherman, Celfyddydau Pontio a Theatr y Torch.

# Am rôl dylunydd set  gwisgoedd dan hyfforddiant



Mae rôl yr hyfforddai ar gyfer pobl sydd yn:

- Byddar
- Anabl
- neu Niwrowahanol



Mae llawer o bobl fyddar, anabl, a niwrowahanol yn wynebu rhwystrau wrth weithio yn y theatr.

Fe fydd rôl yr hyfforddai yn rhoi:




- cyfle i weithio a dysgu sgiliau newydd.
- profiad o weithio yn y theatr.
- cyfle i archwilio eich syniadau.
- lle diogel a chefnogol i dyfu eich sgiliau.
- cyfle i gyfarfod pobl sydd yn gallu helpu gyda'ch gyrfa yn y dyfodol.



Fe fyddwch chi'n cael eich dysgu gan y dylunydd profiadol Hayley Grindle.




Fe fydd rôl yr hyfforddai rhwng 26 Ionawr 2026 a 20 Mawrth 2026.



Rydyn ni'n gofyn i chi hefyd ddod i'r cyfarfod dylunio terfynol. Fe fydd hyn yn help yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 24 Tachwedd 2025.




Oriau arferol: 10am i 6pm



Fe fydd angen i chi fod yn y theatr yn llawn amser. Efallai y byddwch chi'n gallu gwneud rhywfaint o waith gartref.



Rydyn ni'n gallu siarad am hyn yn eich cyfweliad ac yn ystod eich gwaith.



Efallai y byddwn ni eich angen ar gyfer rhywfaint o waith gyda'r nos a phenwythnos.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais

Rydych chi'n gallu gwneud cais os:



- Rydych chi'n nodi fel Byddar, anabl neu niwrowahanol.



- Rydych chi wedi cael eich geni yng Nghymru, eich magu yng Nghymru, neu'n byw yng Nghymru.




- Rydych chi'n 18 oed neu'n hŷn.



- Mae gennych chi brofiad mewn dylunio theatr ac eisiau dysgu mwy.



- Rydych chi wedi gweithio mewn dylunio o'r blaen ac eisiau dod yn ôl i ddylunio ar ôl seibiant.

Rydyn ni eisiau rhywun sydd:



- Wrth ei fodd â theatr a dylunio.
- Gyda diddordeb mewn sioeau theatr mawr.
- Yn drefnus, yn dawel ac yn garedig.
- Eisiau gwneud theatr yn gynhwysol i bawb.
- Rhywfaint o brofiad mewn dylunio theatr.
- Dim yn yr ysgol, yn y coleg, neu'r brifysgol
- Yn gweithio'n dda fel rhan o dîm.
- Yn mwynhau gweithio gyda gwahanol gymunedau.

Rhaid i chi fod â rhywfaint o brofiad neu yn gwybod am:



- Gweithio yn ddiogel a PPE (Cyfarpar Diogelu Personol).



- Gweithio yn ddiogel ar uchder neu gyda deunyddiau sydd ddim yn ddiogel.



- Golygfeydd a thechnegau paentio.

- Gofalu am offer a defnyddio pethau fel gynnau chwistrellu.



- Darlunio, cymysgu lliwiau, a gwaith gwead.



- Cerfluniau a gwneud modelau.

Fe fyddai'n dda os:




- Mae gennych drwydded yrru lawn, lân.




- Rydych chi'n siarad Cymraeg.



- Rydych chi wedi gweithio ar brosiectau cymunedol.

# Beth fyddwch chi'n ei wneud

Fe fyddwch chi yn:



- Mynd i gyfarfodydd dylunio.



- Mynd i gyfarfodydd gyda'r cast a'r criw cyfan.



- Sgwrsio wyneb yn wyneb â'r dylunydd.




- Treulio pythefnos gyda thimau gwahanol yn Theatr Clwyd:

  - Tîm Gwisgoedd dillad, i weld sut mae gwisgoedd yn cael eu gwneud.

  - Tîm Adeiladu Golygfeydd, i weld sut mae'r set yn cael ei hadeiladu.


  - Tîm Celf Golygfeydd i weld sut mae'r set yn cael ei phaentio a'i haddurno.




- Gwylio ffitiadau gwisgoedd pan rydych chi’n gallu.



- Gwylio ymarferion, yn enwedig pan fydd y tîm dylunio yno.



- Bod yno yn ystod adeiladu set ac ymarferion technegol.



- Mynd i ragolwg o sioeau a helpu i wneud newidiadau cyn y noson agoriadol.

Fe fyddwch chi’n cyfarfod timau eraill fel:



- Cynhyrchwyr
- Rheolwyr Cynhyrchu
- Timau Goleuo a Sain

Fe fyddwch chi hefyd yn:



- Siarad â'r hyfforddeion eraill am eich syniadau a'ch dysgu.




- Mynd i wahanol ardaloedd o'r theatr i ddysgu mwy.



- Cael help gan Asiant dros Newid Craidd i'ch cefnogi.




- Cael help gan Gyfarwyddwr Stiwdio Clwyd i edrych ar beth rydych chi wedi'i ddysgu. A chynllunio eich camau nesaf.



Mae hwn yn brosiect peilot, mae'n meddwl ein bod ni'n rhoi cynnig ar y prosiect yma. Felly, fe fyddwn ni'n gofyn i chi roi adborth ar y diwedd.

# Sut fyddwn ni'n eich cefnogi



Rydyn ni eisiau gwneud y cais a'r cyfweliad yn deg. Rydyn ni eisiau cynnig y gefnogaeth mae pobl ei angen.





Dywedwch wrthyn ni os ydych chi angen unrhyw help ar gyfer y cyfweliad.




Fydd hyn ddim yn effeithio ar eich siawns o gael eich dewis ar gyfer y cyfweliad.

Os ydych chi’n cael eich dewis ar gyfer cyfweliad, fe fyddwn ni’n anfon:




- Cwestiynau cyfweliad cyn y cyfweliad.




- Gwybodaeth ysgrifenedig glir am beth i’w ddisgwyl ar y diwrnod.




- Rydyn ni’n gallu darparu’r wybodaeth mewn fformatau eraill os ydych chi’n gofyn am hynny.

Os ydyn ni'n eich dewis ar gyfer y rôl hyfforddai:




- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chi i ateb eich anghenion.




- Fe fyddwn ni'n gofyn i chi lenwi ffurflen Gweithio gyda Fi.



- Rydych chi hefyd yn gallu anfon Access Rider os oes gennych chi un – dyma ddogfen am eich anghenion.



- Os ydych chi'n cael help gan Mynediad i'r Gwaith, fe ddylech chi barhau i ddefnyddio hynny yn ystod eich amser fel hyfforddai.



- Os nad ydy'r gyllideb dan hyfforddiant yn ddigon i'ch anghenion, rydyn ni'n gallu eich helpu i wneud cais am fwy o gymorth.

# Dyddiadau pwysig




Dydd Llun, 18 Awst 2025

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.




Dydd Mercher, 27 Awst 2025

Fe fyddwn ni'n cysylltu â 4 o bobl a'u gwahodd i gyfweliad.




Wythnos yn dechrau15 Medi 2025

Fe fydd cyfweliadau'n digwydd. Fe fydd hyn yn cynnwys:

- Gwylio cyfarfod dylunio.
- Cael cyfweliad gyda:
    - Dylunydd Set a Gwisgoedd, Hayley Grindle
    - Cyfarwyddwr, Kate Wasserberg
    - aelod o Dîm Creu Theatr Clwyd
    - aelod o dîm Craidd




Dydd Gwener, 19 Medi 2025

Fe fyddwn ni'n dweud wrthych chi os ydych chi'n cael eich dewis ar gyfer y rôl hyfforddai.




Wythnos yn dechrau 24 Tachwedd 2025

Fe fyddwch chi'n cael gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod dylunio terfynol yn Theatr Clwyd.

Wythnos yn dechrau 2 Chwefror 2026




Mae'r ymarferion yn dechrau ar gyfer Under Milk Wood. Yr wythnos yma fydd eich Wythnos Sefydlu yn Theatr Clwyd.

Fe fyddwch chi'n gweithio gyda:

- Tîm Gwisgoedd
- Tîm Adeiladu Golygfeydd
- Tîm Celf Golygfeydd




Wythnosau'n dechrau 9 a 16 Chwefror 2026

Fe fyddwch chi'n mynd i ymarferion. Fe fydd y dyddiadau yn cael eu cytuno gyda'r dylunydd i weddu i'ch dysgu.




Wythnos yn dechrau 23 Chwefror 2026
Mwy o amser gyda'r timau creu creadigol.

2 i 7 Mawrth 2026




Wythnos Ffitiadau a Thechnoleg

Fe fyddwch chi yn Theatr Clwyd yn llawn amser.

Dyma pryd mae'r llwyfan yn cael ei adeiladu ac mae'r gwaith technegol yn dechrau.




9 i 14 Mawrth 2026

Mwy o Wythnos Technoleg a Rhagolygon

Fe fyddwch chi'n parhau yn llawn amser yn y theatr, gan helpu gyda chynllunio a sefydlu.




Wythnos yn dechrau 16 Mawrth 2026

Rhagolwg o sioeau a noson gwesteion.

Fe fyddwch chi yn:

- Gorffen unrhyw newidiadau cyn i'r sioe agor.
- Cael cyfarfod olaf gyda'r dylunydd.
- Helpu gyda'r gwaith sefydlu terfynol.
- Bod yn y theatr yn llawn amser.




Dydd Iau, 19 Mawrth 2026

Mynd i'r noson gwesteion ar gyfer Under Milk Wood.




Dydd Gwener, 20 Mawrth 2026

Eich diwrnod olaf:

- Cael cyfarfod olaf gyda'r dylunydd. Mae'r dyddiad yn gallu newid.
- Llenwi eich ffurflen adborth.
- Cael cyfarfod olaf gyda thimau Craidd a Stiwdio Clwyd.

# Arian



Fe fyddwn ni'n rhoi £5,300am eich amser fel hyfforddai.Mae'r arian yma yn cael ei alw yn fwrsariaeth.



Fe fyddwn ni hefyd yn rhoi hyd at £2,970 i helpu gyda chostau teithio a llety.




Rhaid i chi gadw derbynebau i gael yr arian yma yn ôl. Fe fyddwn ni'n eich talu'n ôl am beth rydych chi'n ei wario.



Fe fydd y fwrsariaeth o £5,300 yn cael ei thalu mewn 4 rhan.




Fe fydd angen i chi dalu eich treth eich hun ac Yswiriant Gwladol.Os nad ydych chi'n hunangyflogedig, rydyn ni'n gallu eich helpu i sefydlu hyn.

# Sut i wneud cais

Anfonwch i ni:




- Eich CV. Ni ddylai fod yn fwy nag 1 ochr tudalen A4.



- Dolen i'ch gwefan neu bortffolio.




Dywedwch wrthyn ni mewn 300 o eiriau, neu anfonwch fideo 3 munud am:

- Pam mae'r rôl hyfforddai yma yn bwysig i chi ar hyn o bryd.

- Sut y bydd yn eich helpu i dyfu fel dylunydd set a gwisgoedd.

- Beth rydych chi eisiau ei ddysgu.

Ysgrifennwch hyd at 200 o eiriau, neu anfonwch fideo 2 funud am:



- Pa ddyluniad set a gwisgoedd neu ddylunydd sydd wedi eich ysbrydoli chi a pham?



Dywedwch wrthyn ni os ydych chi angen unrhyw gefnogaeth ar gyfer y cyfweliad.



Rhowch enw 2 berson ar gyfer geirda. Dyma bobl sy'n adnabod eich gwaith:

- Fe ddylai 1 fod yn gydweithiwr creadigol. Mae cydweithiwr creadigol yn meddwl rhywun sy'n gweithio gyda'i gilydd ag eraill i wneud rhywbeth creadigol. Fel ffilm neu waith celf.

- Fe ddylai 1 fod yn ddylunydd, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd.




Fyddwn ni ond yn cysylltu â nhw gyda'ch caniatâd yn nes ymlaen.



Os ydych chi angen help i wneud cais, rydyn ni’n gallu darparu cefnogaeth. Fe fydd mwy o fanylion ar sut i wneud cais yn cael eu cynnwys yn y pecyn cais.

# Sut i anfon eich cais i ni



Rydych chi'n gallu anfon eich atebion fel testun ysgrifenedig neu fel fideo.




Rydych chi'n gallu ei anfon i ni yn Gymraeg neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) os ydych chi eisiau.



E-bostiwch eich cais at: stiwdio@theatrclwyd.com




Rhaid i chi anfon eich cais i ni erbyn 6pm ar 18 Awst 2025.